**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 424**
**21 Chwefror, 2019, Yr Hen Lyfrgell, Caerdydd**

**Presennol:**
**Aelodau Anweithredol y Bwrdd**

| | | |
|---|---|---|
| | Huw Jones | (Cadeirydd) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Rhodri Williams | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Aelodau Gweithredol y Bwrdd Unedol Cysgodol:** | | |
| | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| **Hefyd yn bresennol:** **Staff S4C:** | | |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Phil Williams | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Carys Evans | (Arweinydd Tîm Data a Dadansoddi) – eitem 8 |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Ariannol) - eitem 10 |
| | Ruth Meadows | (Pennaeth Strategaeth Digidol a Dadansoddi) eitem 7 |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwy-ydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| **Ymddiheuriadau:** | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |

## COFNODION

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Bwrdd yng nghanolfan yr Hen Lyfrgell, Caerdydd.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datgan-iadau cyffredinol.*

2 **Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 423 a gynhaliwyd ar Ionawr 24ain, 2019**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 423 a gynhaliwyd ar Ionawr 24ain.
Nodwyd fod angen cywiro enw Amanda Rees.

**Cymeradwywyd y cofnodion gan y Bwrdd gan ymgorffori'r newid uchod.**

3. **Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 423**

**Archif a'r Llyfrgell Genedlaethol**
Holwyd am ddiweddariad parthed y trafodaethau gyda'r Llyfrgell Genedlaethol, a nodwyd nad oedd unrhyw gynnydd i'w gyflwyno ar hyn o bryd.

Nodwyd fod y BBC wedi cadarnhau y byddant yn cadw copi digidol o'u harchif ac yn cynnig copïau ar dap i'r Llyfrgell. Cadarnhawyd mai dyma fyddai bwriad S4C yn ogystal. Disgwylir i'r gwaith o archifo copi digidol o holl ddeunydd perthnasol S4C gael ei gwblhau erbyn yr hydref, ac yna, byddai modd cynnig y copïau ar dâp i'r Llyfrgell.

**Eitem 5. – Risg yn perthyn i *amserlen penodi Cadeirydd***
Nododd OE fod DCMS yn parhau i ystyried y broses ar gyfer penodi Cadeirydd newydd ar gyfer S4C.

Nodwyd mai mater i wleidyddion yn San Steffan a'r Bae oedd trafod a chytuno ar drefniadau'r broses benodi, ond nodwyd fod Cynulliad, ac yn ddiweddarach, Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'r broses o benodi Cadeirydd ac Aelodau Bwrdd ers sefydlu'r Cynulliad. Roedd rôl y Cynulliad wedi ei nodi'n ffurfiol ers 1998 mewn concordat rhwng DCMS a Chabinet y Cynulliad.

Nodwyd nad oedd yn debygol y byddai DCMS yn hysbysebu ar gyfer dau aelod ychwanegol, sef eu bwriad gwreiddiol, tan yr hydref.

Roedd y Bwrdd wedi adnabod sefyllfa'r Gadeiryddiaeth fel risg yn ei gyfarfod ym mis Ionawr. Roedd y Cadeirydd wedi nodi ei barodrwydd i DCMS i barhau yn ei swydd am gyfnod penodol ar ddiwedd ei dymor er mwyn hwyluso'r broses a sicrhau na fyddai S4C heb gadeirydd am gyfnod.

Penderfynwyd y byddai OE yn danfon llythyr i DCMS yn nodi pryder y Bwrdd parthed amserlen y broses o benodi olynydd i HJ, ac yn awgrymu ymestyn tymor HJ am gyfnod er mwyn ceisio osgoi sefyllfa lle byddai S4C heb gadeirydd.

**Pwyllgor Dethol Materion Cymreig**
Cyfeiriwyd at lythyron pellach gan David T.C. Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor, a oedd yn ceisio rhagor o wybodaeth am fuddsoddiadau penodol a wnaed gan S4C Masnachol. Roedd ymateb drafft wedi ei lunio yn enw'r Cadeirydd ac wedi ei gylchredeg i Aelodau'r Bwrdd ar gyfer eu sylwadau.

**Eitem 6 – Trefniadau ad-dalu benthyciad DCMS**
Nodwyd fod trafodaethau wedi eu cynnal gydag adran gyllid DCMS parthed addasu proffil llifarian ac ad-daliadau'r benthyciad o £10m i S4C ar gyfer llifariannu'r prosiectau Adleoli a Chydleoli. Oherwydd newidiadau i amseru'r prosiect Cydleoli yn bennaf, roedd gofynion llifariannu S4C wedi newid, a phe na fyddai modd addasu proffil y taliadau, fe allai hyn ymddangos fel incwm ychwanegol sydd heb ei wario yn y Datganiad Ariannol.

Nid yw'r Trysorlys yn fodlon addasu'r proffil, ac felly bydd angen sicrhau y bydd y Datganiad Ariannol yn egluro'n glir beth yw pwrpas yr incwm penodol, a pham fod gwahaniaethau amseru o ran derbyn yr incwm a'r gwariant cysylltiedig, fel na fyddai'n ymddangos fel cynnydd yn incwm blynyddol S4C.

**Eitem 7 – Darlledu'r Pro14**
Cyflwynwyd diweddariad ynglŷn ag opsiynau ar gyfer darlledu'r Pro14 a thrafodaethau gyda'r BBC.

Nodwyd y bydd opsiynau ar gyfer slot darlledu'r Pro14 yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd pan ddaw gwybodaeth bellach i law.

4. **Pwyntiau Gweithredu**
Cyflwynwyd y Pwyntiau Gweithredu er gwybodaeth.

Pwysleisiwyd yr angen i swyddogion gyflwyno diweddariad ar gyfer y pwyntiau gweithredu sydd heb eu cyflawni erbyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth.

**Strategaeth S4C ar gyfer Miliwn o Siaradwyr Cymraeg**
Cyfeiriwyd at bwyntiau Gweithredu Hydref 2018, a nodwyd nad oedd adroddiad cynnydd wedi ei gyflwyno i'r Bwrdd fel y disgwyl parthed strategaeth S4C o ran ymwneud â tharged y Llywodraeth i anelu am filiwn o siaradwyr Cymraeg.
Nodwyd yr angen i sicrhau adroddiad i'r Bwrdd yn fuan.

5. **Adroddiad y Cadeirydd**
Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

**Ymgynghoriad y BBC ar y consesiwn ar gyfer trwyddedau teledu i bobl dros 75 oed**
Nododd fod ymateb wedi ei ddanfon i'r BBC yn dilyn cymeradwyo drafft gan yr Aelodau drwy gyfrwng e-bost.

**Ofcom**
Nododd PW fod trafodaethau'n parhau gydag Ofcom. Roedd Ofcom yn cynnig cynnwys tudalen ar eu gwefan a fyddai'n amlinellu'r darpariaethau rheoleiddio sy'n berthnasol i S4C.

**Trefniadau Archwilio Allanol / NAO**
Roedd PW a ShW wedi cynnal cyfarfod cadarnhaol gyda'r NAO a swyddogion y Trysorlys a DCMS er mwyn trafod opsiynau ar gyfer cytundebu'r NAO i fod yn archwilwyr allanol S4C ar gyfer 2019/20, a chyn y bydd y darpariaethau statudol perthnasol wedi eu diweddaru.

Penderfynwyd y dylid parhau i drafod opsiynau ar gyfer dod i gytundeb gyda'r NAO ar gyfer cytundeb archwilio allanol S4C, ar sail y byddai'r cytundeb yn berthnasol i grŵp S4C (gan gynnwys y Gronfa Gyhoeddus a'r Gronfa Gyffredinol/Grŵp Masnachol), ac y byddai'r mynediad a fyddai'n cael ei gynnig i'r NAO yn cynnwys mynediad ar gyfer dibenion archwilio ariannol ac yn parhau i gynnwys archwilio gwerth am arian (gan ddilyn cynsail Cytundeb Gweithredu 2013 a Chytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd 2017).

**Cylchoedd Gorchwyl y Pwyllgorau**
Nodwyd fod gwaith ar y gweill i ddiweddaru cylchoedd gorchwyl y Pwyllgorau.

Penderfynwyd y dylid cylchredeg y fersiynau drafft diwygiedig o gylchoedd gorchwyl y Pwyllgorau i holl aelodau'r Bwrdd pan fyddant wedi eu paratoi.

**Gweithredu argymhellion yr Adolygiad / Diweddaru'r darpariaethau statudol**
Nododd OE fod DCMS yn paratoi cyfarwyddiadau ar gyfer cyfreithwyr y Llywodraeth er mwyn gweithredu'r newidiadau deddfwriaethol a fydd eu hangen ar gyfer cyflawni argymhellion yr adolygiad. Disgwylir derbyn drafft o'r cyfarwyddiadau maes o law.

6. **Adroddiad y Prif Weithredwr**
Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

**Cydleoli gyda'r BBC**
Cyfeiriodd OE at adroddiadau cynnydd prosiect Sgwâr Canolog a ddarparwyd gan BBC Cymru a nodwyd pryder swyddogion parthed lefel y manylder sy'n cael ei ddarparu gan dîm prosiect y BBC, a gallu S4C i graffu cynnydd y prosiect a'r risgiau.

Nodwyd bod y Pwyllgor hefyd wedi penderfynu gwahodd rheolwyr prosiect y BBC i gyfarfod nesaf y Pwyllgor i drafod risgiau a chynnydd y prosiect.

**Cofnod Cyfarfod Chwarterol y JPB gyda'r BBC**
Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod chwarterol y JPB er gwybodaeth.

Nodwyd y byddai staff technegol S4C sy'n trosglwyddo i gyflogaeth y BBC yn unol â rheoliadau TUPE yn trosglwyddo ar 25 Chwefror. Bydd y Cadeirydd ac OE yn danfon nodyn i'r staff i ddiolch iddynt am eu cyfraniad hyd yma, gan nodi'r newid cytundebol arfaethedig, a nodi y byddant yn dal i fod yn rhan bwysig o weithgaredd a llwyddiant S4C yn y dyfodol.

**Statws TAW S4C**
Cyflwynwyd diweddariad parthed trafodaethau am statws TAW S4C.

**Trefniadau Llywodraethiant Newydd ar gyfer gweithgareddau masnachol S4C a'r Protocol ar gyfer buddsoddiad gan y Grŵp Masnachol mewn cwmni cynhyrchu**

Cyflwynodd EM drefniadau diwygiedig ar gyfer llywodraethiant gweithgareddau masnachol S4C a'r Protocol ar gyfer buddsoddiad gan y Grŵp Masnachol mewn cwmni cynhyrchu, yn dilyn trafodaeth gydag AG. Roedd darpariaethau wedi eu cynnwys er mwyn rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau, neu ganfyddiad o hynny o fewn y Panel Buddsoddi.

Roedd y trefniadau diwygiedig yn sicrhau na all noddwr o'r ochr gyhoeddus bleidleisio yn y Panel Buddsoddi ar gymeradwyo'r buddsoddiad y mae'n noddwr arno. Yn ogystal, ni all y Cyfarwyddwr Cynnwys bleidleisio ar gymeradwyo unrhyw fuddsoddiad mewn cwmni sydd yn neu'n debygol o gynhyrchu cynnwys ar gyfer S4C.

Cymeradwywyd y Trefniadau a'r Protocol diwygiedig gan y Bwrdd.

**Diweddariad Perfformiad y Grŵp Masnachol**
Penderfynwyd y dylid cyflwyno Diweddariad Perfformiad hanner blwyddyn y Grŵp Masnachol i'r Bwrdd ym mis Ebrill, fel rhan o'r broses graffu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac yna ym mis Hydref, sef hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol.

7. **Gwariant ac Adnoddau Cyfathrebu**

Cyflwynodd GW adroddiad parthed Gwariant ac Adnoddau Hyrwyddo, gan gynnwys argymhellion ar gyfer y cyfnod 2019/20 i 2021/22.

Bwriad y buddsoddiad ychwanegol fyddai cynyddu lefelau gwylwyr ac ymwybyddiaeth y gynulleidfa o S4C a darpariaeth y sianel.

Esboniwyd bod y strategaeth arfaethedig yn seiliedig ar gynnal un ymgyrch gorfforaethol, sylweddol bob blwyddyn, gan gynnwys ar gyfer hyrwyddo Clic, Hansh ac ail-frandio S4C.

Roedd ystyriaeth wedi ei roi o fewn y cynllun i ba gyfryngau i'w defnyddio i dargedu elfennau penodol o'r gynulleidfa, gan gynnwys cyfryngau traddodiadol lle'n addas, a chyfryngau digidol a chyfleoedd newydd ac amgen i gyd-fynd gyda chynulleidfaoedd targed rhaglenni.

Nodwyd yr angen i ddatblygu'r bartneriaeth a'r cydweithio gyda'r BBC o ran hyrwyddo darpariaeth S4C a darpariaeth y deg awr. Esboniwyd fod rhai rhaglenni yn fodlon hyrwyddo darpariaeth S4C, megis rhaglen Al Hughes ar Radio Cymru, a darpariaeth Pobol y Cwm, ond bod hyrwyddo'r ddarpariaeth Chwaraeon a Dramâu yn fwy heriol.

Nododd OE y byddai cynllun strategol yn cael ei ddatblygu er mwyn cynllunio'r datblygiadau hyrwyddo, eu heffaith, a'r berthynas gyda'r gyllideb a'r strategaeth cynnwys, gydag adroddiad cynnydd i'w gyflwyno i'r Bwrdd naill ai ym mis Ebrill neu Mai.

Cymeradwyodd y Bwrdd, mewn egwyddor, yr argymhelliad a gyflwynwyd gan GW i gynyddu'r buddsoddiad blynyddol yng ngweithgareddau cyfathrebu S4C, ond gan nodi'r angen i ddeall mwy am impact disgwyliedig yr hyn y gellid ei gyflawni gyda'r buddsoddiad ychwanegol, a sut y byddai'r buddsoddiad hyn yn effeithio ar y gyllideb cynnwys a gallu S4C i barhau i ddarparu ystod eang o gynnwys o safon uchel.

**Cytundeb Golygyddol gyda'r BBC**
Awgrymwyd y dylai swyddogion ystyried cynnwys darpariaethau penodol yn y Cytundeb Golygyddol arfaethedig gyda'r BBC parthed hyrwyddo rhaglenni'r 10 awr ar wasanaethau'r BBC.

Awgrymwyd hefyd y dylid cofnodi unrhyw faterion o bwys sy'n peri pryder i swyddogion S4C o ran y berthynas gyda'r BBC (gan gynnwys materion hyrwyddo ar y cyd) yng nghofnodion y JPB fel bod modd dwyn materion perthnasol i sylw Bwrdd S4C a Bwrdd y BBC maes o law.

Cyflwynodd RM ddiweddariad ar gynlluniau llwyfannau digidol a chyfryngau cymdeithasol. Esboniodd fwriad y strategaeth i gynyddu ymwybyddiaeth, diddordeb ac

ymwneud gydag S4C arlein. Bydd y strategaeth yn defnyddio partneriaethau, unigolion dylanwadol a chymunedau arlein er mwyn cyflawni'r nod.

Roedd pythefnos o ddata Clic wedi ei golli dros gyfnod y Nadolig a bod swyddogion yn y broses o ystyried dulliau ar gyfer modelu'r perfformiad tebygol dros y cyfnod perthnasol.

Mae tîm digidol wedi ei sefydlu o fewn S4C sy'n cynnwys datblygwyr meddalwedd, arbenigwyr data, a chynrychiolwyr o adrannau eraill.

Roedd datblygiadau diweddar Clic yn cynnwys cofrestru dewisol, proffiliau personol. Datblygiadau i ddod yn cynnwys curadu cynnwys eich hun, 'castio' o ddyfeisiau symudol i sgrin teledu clyfar, a darpariaeth bocs sets newydd, gan gynnwys Un Bore Mercher II cyn ei ddarlledu ar y gwasanaeth lliniol.

Nodwyd nad oedd y gallu i lawrlwytho cynnwys yn rhan o'r cynllun datblygu presennol oherwydd cymhlethdodau technegol.

Cyhoeddir trydydd casgliad o bocs sets ym mis Medi, a fydd yn cynnwys rhaglenni sy'n berthnasol i'r sector addysg er mwyn cyd-fynd gyda'r flwyddyn academaidd newydd.

Nodwyd y bydd diweddariad pellach ar waith y tîm digidol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mai.

8. **Cyflwyniad Dadansoddi Misol**

Cyflwynodd CE yr Adroddiad Dadansoddi Misol newydd.

Cyfeiriwyd at y gwahaniaethau rhwng patrwm ffigyrau gwylio Clic ac iPlayer ers 2016-17, a holwyd oedd y strategaeth a'r buddsoddiad presennol yn llwyfan Clic yn cymryd i ystyriaeth batrymau defnydd y llwyfannau.

Esboniwyd fod y ddau lwyfan yn cynnig cyfleoedd gwahanol i S4C. Roedd iPlayer yn frand adnabyddus, sydd ar gael ar ystod o lwyfannau na fyddai modd eu cyrraedd fel arall o ran costau ariannol ac adnoddau technegol, ond dim ond yn cynnig archif 35 diwrnod o'r amserlen liniol, tra mae Clic yn cynnig rhyddid i S4C i ddarparu mwy o gynnwys, megis *bocs sets*, cynnwys archif a chynnwys sydd ddim yn rhan o'r amserlen liniol.

9. **Adroddiadau o gyfarfodydd y Pwyllgorau**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd y Pwyllgorau a gynhaliwyd ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr.

**Adroddiad o gyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 13.02.19**

Cyflwynodd OE adroddiad ar lafar o gyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 13.02.19

Nododd y Bwrdd eu bod yn awyddus i dderbyn gwybodaeth bellach parthed y buddsoddiadau presennol, gan gynnwys buddsoddiadau ecwiti a chronfa Sarasin. Penderfynwyd darparu copi o Adroddiad Perfformiad Rheolaidd Sarasin i'r Aelodau ym mis Ebrill/Mai.

**Ystâd Parc Tŷ Glas**

Nodwyd bod y gwaith o baratoi cynlluniau busnes rhentu'r ystâd yn parhau, a bod nifer o denantiaid eisoes wedi ymrwymo i gymryd gofod swyddfa yn yr adeilad. Mae trafodaethau ar y gweill gyda nifer pellach o ddarpar denantiaid.

**Tele-siopa**

Holwyd am y cytundeb tele-siopa, ac a oedd y trefniant yn gydnaws erbyn hyn gyda gwerthoedd brand S4C. Esboniwyd bod y trefniant wedi bod yn broffidiol iawn yn nyddiau cynnar teledu digidol, ond erbyn hyn roedd lefel yr incwm wedi gostwng yn sylweddol.

Penderfynwyd gofyn i'r Bwrdd Masnachol i ystyried priodoldeb a gwerth y trefniant tele-siopa, gan adrodd yn ôl i'r Bwrdd maes o law.

10. **Adroddiad Ariannol Ch.3 2018-19**

Cyflwynodd ShW Adroddiad Ariannol Chwarter 3 2018-19.

11. **Parhad o Adroddiad o gyfarfodydd y Pwyllgorau**

**Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 20.02.19**
Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar lafar o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 20.02.19 Trafododd y Pwyllgor y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc. Darperir cofnodion y cyfarfod i'r Aelodau maes o law.

**Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Materion Eraill a gynhaliwyd ar 20.02.19**
Cyflwynodd HHE adroddiad ar lafar o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Materion Eraill a gynhaliwyd ar 20.02.19, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

**Archwilio Mewnol**
Nodwyd bod PWC yn anelu i gwblhau'r gwaith archwilio erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Cyflwyniad gan berchennog maes risg – Adnoddau Dynol**
Cafodd y cyfarfod gyflwyniad gan Catrin Whitmore, Pennaeth Adnoddau Dynol S4C, fel rhan o'r gyfres o gyflwyniadau gan berchnogion meysydd risg o fewn busnes S4C. Cafwyd cyflwyniad agored a chynhwysfawr, a chyfle i'r Pwyllgor holi cwestiynau am risgiau presennol o ran staffio, gan gynnwys yr her o benodi staff gyda'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol yn yr Egin, delio gyda'r broses TUPE a pharatoi ar gyfer Cydleoli, a diweddaru systemau a dogfennaeth adnoddau dynol S4C.

**Adroddiad Sicrwydd Ariannol ar gyfer Ch.1 a 2 i'w gyflwyno i'r BBC.**
Cyflwynodd PW Adroddiad Sicrwydd Ariannol drafft ar gyfer Ch.1 a 2 i'w gyflwyno i Fwrdd y BBC o dan ddarpariaethau'r Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd. Esboniwyd fod y Pwyllgor Archwilio a Materion eraill wedi ystyried y ddogfen drafft yn eu cyfarfod ddoe, ac wedi penderfynu argymell i'r Bwrdd i gymeradwyo'r Adroddiad.

Cymeradwyodd y Bwrdd yr Adroddiad Sicrwydd Ariannol ar gyfer Ch1 a 2 i'w gyflwyno i'r BBC, gan ddirprwyo i HHE drefniadau darparu'r adroddiad a thrafod gyda chadeirydd pwyllgor archwilio'r BBC yn ôl yr angen.

12. **Rhaglenni'r mis aeth heibio**
Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio.

13. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**
Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

14. **Rhaglen Waith**
Cyflwynwyd Rhaglen Waith drafft y Bwrdd ar gyfer 2019 er gwybodaeth.

15. **Unrhyw Fater Arall**